Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fawrth yr 22ain o Awst 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.15yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Robert Jones
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Mr Roger Phillips (Clerc Tref) Gwyliau
Absennol: Y Cyng. Geraint Price

Cof 119 / Awst / 17 Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar nos Fawrth yr 22ain o Awst 2017

Cychwynnodd y cyfarfod am 7.15yh., yn dilyn cyflwyniad a diweddariad gan Owain Gruffydd PSG Menter Bro Dinefwr, mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer Neuadd y Sir. Yn dilyn y cyflwyniad, fe wnaeth nifer o Gynghorwyr holi cwestiynau perthnasol i Mr Gruffydd. Cadarnhaodd Mr Gruffydd bod yn rhaid cyflwyno'r cais am grant erbyn y 26ain o Fedi, ac yr oedd yn darogan byddai'r canlyniad yn dod ym mis Chwefror 2018. Pe byddai'r cais yn llwyddiannus, fe fyddai'r gwaith yn cychwyn yn haf 2018, ac yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2019.
Agorodd y Maer y cyfarfod trwy ddiolch i'r Cynghorwyr i gyd am wneud yr ymdrech i fynychu'r cyfarfod arbennig pwysig hwn.
Diolchwyd i'r Cyng. Edward Thomas, Cadeirydd Is-grŵp Neuadd y Sir, am ei waith i baratoi'r adroddiad, a ddosbarthwyd i bob un o'r Cynghorwyr ymlaen llaw.
Yna, rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr i holi cwestiynau i'r Cyng. Thomas a'r Swyddog Cyllid.
Rhoddwyd yr argymhellion a wnaed gan yr Is-grŵp gerbron y cyfarfod. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y dylid bwrw pleidlais wedi'i chofnodi, ar y cynigion canlynol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas:-

1. Bod y Cyngor yn parhau gyda'u partneriaeth gydweithredol gyda Menter Bro Dinefwr, i wneud gwell defnydd o Neuadd y Sir i'r gymuned a chynnig prydles 99 mlynedd, am rent rhad, i Fenter Bro Dinefwr ar y sail a nodwyd.
2. Bod y Cyngor yn ceisio caniatâd Llywodraeth Cymru i gymryd benthyciad gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, hyd at uchafswm o £125,000, dros gyfnod o 25 mlynedd. Yn daledig trwy'r praesept, i ariannu gwaith atgyweirio hanfodol i Neuadd y Sir.

Pleidleisiwyd, yn unfrydol, o blaid derbyn y cynigion.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh.